

Strategaeth Ansawdd Aer Caerffili

2026 – 2031



Cynnwys

Geirfa a byrfoddau	3
Crynodeb Gweithredol	4
Rhagair	6
1 Cyflwyniad	7
1.1 Gweledigaeth ac amcanion	7
1.2 Sut aethon ni ati i ddatblygu'r Strategaeth?	8
2 Pam mae angen i ni wella ansawdd aer?	9
2.1 Effeithiau llygredd aer ar iechyd	9
2.2 Effeithiau llygredd aer ar yr economi	11
2.3 Llygredd aer a thegwch cymdeithasol	12
2.4 Safonau ansawdd aer yng Nghymru	14
3 Ansawdd aer ym Mwrdeistref Sirol Caerffili	15
3.1 Monitro ansawdd aer	15
3.2 Beth sy'n achosi llygredd aer ym Mwrdeistref Sirol Caerffili?	17
4 Camau gweithredu ar draws meysydd thematig	21
4.1 Lleihau allyriadau traffig ffyrdd	22
4.2 Mwg a hylosgi domestig	24
4.3 Diwydiant a masnach	26
4.4 Adeiladu a datblygiadau newydd	28
5 Monitro a gwerthuso	29
6 Sut allwch chi helpu?	30
7 Ble i gael rhagor o wybodaeth?	31
Appendix A: Crynodeb o ganlyniadau ymgysylltu â'r gymuned	32

Geirfa a byrfoddau

Mae'r eirfa isod yn darparu diffiniadau clir o fyrfoddau a ddefnyddir yn y Strategaeth Ansawdd Aer hon, gan helpu darllenwyr i lywio iaith dechnegol a deall y cysyniadau sy'n sail i reoli ansawdd aer yng Nghaerffili.

Byrfodd	Term	Diffiniad
AQMA	Ardal Rheoli Ansawdd Aer	Ardal ddynodedig lle nad yw amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn cael eu cyflawni a lle mae'n rhaid i awdurdod lleol gymryd camau i wella ansawdd aer.
AQS	Strategaeth Ansawdd Aer	Y ddogfen strategol sy'n amlinellu dull Caerffili o wella ansawdd aer.
APR	Adroddiad Cynnydd Blyneddol	Adroddiad blyneddol statudol o dan LAQM sy'n crynhoi data monitro a'r camau a gymerwyd gan y Cyngor.
CCRRTP	Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	Y strategaeth drafnidiaeth ranbarthol sy'n amlinellu blaenoriaethau trafnidiaeth gynaliadwy a charbon isel ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
COVID-19	Clefyd Coronafeirws 2019	Pandemig byd-eang a gafodd effaith dros dro ar lefelau traffig ac allyriadau.
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	Adran Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi ansawdd aer cenedlaethol a'r plattform UK-AIR.
HGV	Cerbyd Nwyddau Trwm	Cerbydau cludo llwythi mawr sy'n cyfrannu at allyriadau NO _x a deunydd gronynnol.
LAQM	Rheoli Ansawdd Aer Lleol	Y fframwaith statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu, asesu a rheoli ansawdd aer.
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol	Fframwaith cynllunio Caerffili sy'n llywio polisiau defnydd tir, datblygu ac amgylcheddol.
LSOA	Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is	Ardal ystadegol ddaearyddol fach a ddefnyddir i ddadansoddi poblogaeth ac amddifadedd (e.e. ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).
NAEI	Y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol	Cronfa ddata allyriadau swyddogol y DU, a ddefnyddir i ddadansoddi ffynonellau NO _x , PM ₁₀ a PM _{2.5} .
Y GIG	Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol	System iechyd cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd sydd wedi'u heffeithio gan salwch sy'n gysylltiedig â llygredd aer.
NO₂	Nitrogen deuocsid	Llygrydd o draffig ffyrdd a hylsgi yn bennaf, sy'n niweidiol i iechyd yr ysgyfaint.
NO_x	Ocsidau nitrogen	Grŵp o nwyon (gan gynnwys NO a NO ₂) a gynhyrchir yn ystod prosesau hylsgi.
PM₁₀	Deunydd gronynnol ≤ 10 micrometr	Gronynnau bras sy'n gallu mynd i mewn i'r ysgyfaint ac effeithio ar iechyd anadlol.
PM_{2.5}	Deunydd gronynnol ≤ 2.5 micrometr	Gronynnau mân sy'n treiddio'n ddwfn i'r ysgyfaint a'r llif gwaed, gan beri risgiau sylweddol i iechyd.
CCA	Canllawiau Cynllunio Atodol	Canllawiau cynllunio ychwanegol sy'n cefnogi polisiau yn y Cynllun Datblygu Lleol.
TrC	Trafnidiaeth Cymru	Y sefydliad sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a Metro De Cymru.
VOCs	Cyfansoddion Organig Anweddol	Cemegau organig sy'n allyrru o gynhyrchion fel paent, toddyddion a thanwyddau; mae rhai yn cyfrannu at lygredd aer.
WHO	Sefydliad Iechyd y Byd	Corff rhwngwladol sy'n darparu canllawiau ansawdd aer sy'n seiliedig ar iechyd.
MALIC	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	Mesur swyddogol o amddifadedd cymharol yng Nghymru, a ddefnyddir i nodi cymunedau sy'n agored i niwed.




Crynodeb Gweithredol

Mae aer glân yn hanfodol i gadw cymunedau Bwrdeistref Sirol Caerffili yn iach. Er bod ansawdd aer wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llygredd o draffig, diwydiant, llosgi domestig ac adeiladu yn dal i effeithio ar bobl ym mhob cwr o'r fwrdeistref. Mae'r Strategaeth Ansawdd Aer hon yn nodi sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio dros y pum mlynedd nesaf i greu lleoedd glanach, iachach i bawb.

Pam mae ansawdd aer yn bwysig

Gall llygredd aer effeithio ar ein hysgyfaint, ein calon a'n lles cyffredinol, yn enwedig plant, oedolion hŷn, a phobl â chyflyrau iechyd presennol. Bydd lleihau llygredd:



Ansawdd Aer ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Mae ansawdd aer ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi bod yn gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Mae gwaith monitro yn dangos bod yr holl safleoedd monitro ansawdd aer cyfredol yn bodloni terfynau cenedlaethol ar gyfer Nitrogen Deuocsid (NO₂) a deunydd gronynnol (PM). Mae rhai ardaloedd yn dal i ddioddef llygredd o ffyrdd prysur, llosgi domestig a gweithgareddau diwydiannol, ond mae'r duedd gyffredinol yn gadarnhaol.

Beth rydyn ni'n ei wneud

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:



1. Lleihau allyriadau traffig ffyrdd



2. Mwg a hylosgi domestig



3. Diwydiant a masnach



4. Adeiladu a datblygiadau newydd

Sut y byddwn ni'n olrhain cynnydd

Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd aer, adrodd ar ganlyniadau bob blwyddyn a diweddarau camau gweithredu os bydd pethau'n newid. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, partneriaid iechyd a chynghorau cyfagos.

Sut gall pobl leol helpu

Mae newidiadau bach yn gwneud gwahaniaeth mawr. Gallwch chi helpu trwy:

- ddewis cerdded, beicio neu ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus ar gyfer teithiau byr
- osgoi gadael i injan cerbyd segura yn ddiangen
- lleihau llosgi domestig
- gwella systemau awyru ac effeithlonrwydd ynni yn y cartref

Rhagair

Mae aer glân yn hanfodol i iechyd, lles ac ansawdd bywyd pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn treulio amser ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'n effeithio ar sut mae ein cymunedau'n teimlo bob dydd ac, yn bwysicach fyth, yn cael effaith barhaol ar ein hiechyd corfforol a meddyliol hirdymor. Fel Aelod y Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, pleser yw cyflwyno Strategaeth Ansawdd Aer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer 2026–2031.



Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ansawdd aer ar draws y fwrdeistref wedi gwella, gan adlewyrchu ymdrechion parhaus y Cyngor, ein partneriaid, busnesau lleol a thrigolion. Fodd bynnag, mae'r gwelliannau hyn hefyd yn tynnu sylw at yr angen i barhau â'n gwaith. Mae tystiolaeth yn dangos y gall hyd yn oed lefelau cymharol isel o lygredd aer niweidio iechyd, yn enwedig iechyd plant, pobl hŷn a'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau iechyd presennol. Rydyn ni hefyd yn cydnabod nad yw pawb yn teimlo effeithiau ansawdd aer gwael yr un fath a gall roi mwy o faich ar ein cymunedau mwy agored i niwed.

Mae'r Strategaeth hon yn nodi fframwaith clir, ymarferol ac uchelgeisiol ar gyfer sut y byddwn ni'n parhau i wella ansawdd aer dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n canolbwyntio ar feysydd lle bydd camau gweithredu yn cael yr effaith fwyaf, gan gynnwys lleihau allyriadau o drafnidiaeth ffyrdd, mynd i'r afael â llygredd o losgi domestig, rheoli allyriadau o ddiwydiant a masnach a sicrhau bod datblygiadau newydd yn cefnogi lleoedd iachach. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn, wedi'i llywio gan waith gyda chymunedau, ac yn cyd-fynd â pholisi a chyfrifoldebau statudol Llywodraeth Cymru.

Nid yw gwella ansawdd aer yn rhywbeth y gall y Cyngor ei gyflawni ar ei ben ei hun. Mae'n dibynnu ar bartneriaethau cryf ar draws gwasanaethau cyhoeddus, cydweithio ag awdurdodau cyfagos a chamau gweithredu cadarnhaol gan fusnesau a thrigolion. Felly, mae'r Strategaeth hon yn rhoi pwyslais cryf ar weithio gyda'n gilydd i gyflawni newid ystyrlon a pharhaol ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae'r Strategaeth Ansawdd Aer hon yn cyd-fynd â'n hymrwymadau ehangach ar newid hinsawdd, datgarboneiddio, teithio llesol a chreu lleoedd. Mae llawer o gamau sy'n lleihau llygredd aer yn cynnwys manteision ehangach hefyd, gan gynnwys strydoedd mwy diogel, canol trefi mwy deniadol, llai o dagfeydd a ffyrdd iachach o fyw. Bydd y dull integredig hwn yn ein helpu i ddarparu aer glanach wrth gefnogi twf economaidd a gwella ansawdd bywyd ar hyd a lled y fwrdeistref.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth hon, gan gynnwys swyddogion y Cyngor, aelodau o'r Grŵp Llywio Ansawdd Aer, sefydliadau partner a thrigolion a gyfrannodd at yr ymgynghoriad. Roedd eich gwybodaeth a'ch profiad yn amhriiadwy.

Rwy'n ffyddiog bod y Strategaeth Ansawdd Aer hon yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynnydd parhaus. Trwy gynnal ffocws clir ar iechyd, tegwch ac atal, a thrwy weithio gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod pawb ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn gallu anadlu aer glanach nawr ac yn y dyfodol.

P. Leonard

Y Cyngorydd Philippa Leonard

1 Cyflwyniad

Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i siapio gan gymoedd a chefnennau a chymunedau clos. O drefi marchnad Caerffili a Choed-duon i bentrefi sy'n ymestyn trwy gymoedd Rhymni, Sirhywi ac Ebwy, mae tirweddau'r fwrdeistref yn siapio sut mae pobl yn byw, teithio, gweithio a threulio amser yn yr awyr agored. Mae aer glân yn hollbwysig i ddiogelu'r cymunedau hyn, cefnogi bywydau iachach a sicrhau bod bwrdeistref Caerffili yn parhau i fod yn lle gwych i fyw ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory.

1.1 Gweledigaeth ac amcanion

Ein gweledigaeth yw i bob cymuned ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili – o'r copaon garw i lawr y dyffryn, ac o aneddiadau maestrefol uchel i drefi ffyniannus a chymunedau gwledig fel ei gilydd – elwa ar aer glanach ac iachach gydol eu bywydau bob dydd. Mae'r Strategaeth Ansawdd Aer yn nodi sut y byddwn ni'n gweithio tuag at y nod hwn trwy leihau llygredd yn y man cychwyn, blaenoriaethu iechyd ein trigolion mwyaf agored i niwed a chreu lleoedd mwy diogel, glanach a mwy hygrych. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, nod y Strategaeth yw:



Gwella dealltwriaeth leol o ffynonellau ac atebion llygredd aer ym Mwrdeistref Sirol Caerffili



Canolbwyntio ar weithredu mewn ardaloedd lle mae llygredd ac anghydraddoldebau iechyd yn gorgyffwrdd

Cefnogi ffyrdd glanach, mwy cynaliadwy o deithio, gwresogi cartrefi a rhedeg busnesau



Gweithio ar y cyd â phartneriaid i fynd i'r afael â heriau sy'n ymestyn y tu hwnt i'n ffiniau




1.2 Sut aethon ni ati i ddatblygu'r Strategaeth?

Mae Strategaeth Ansawdd Aer Caerffili wedi'i llunio trwy broses gydweithredol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i gwreiddio mewn gwybodaeth leol. Cafodd y Strategaeth ei datblygu gan Grŵp Llywio Ansawdd Aer amlddisgyblaethol a sefydlwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gan gynnwys swyddogion iechyd yr amgylchedd, cynllunwyr, timau trafnidiaeth, timau tai a datgarboneiddio, gwasanaethau cymdeithasol a chynrychiolwyr cynghorwyr lleol, i sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r fwrdeistref.

1.2.1 Cynnwys cymunedau

Er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn cynrychioli ystod amrywiol o safbwyntiau, fe wnaethom gynnal arolwg cymunedol ac ymgynghoriad cyhoeddus ledled y fwrdeistref rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2026 i ddeall sut mae trigolion yn gweld ansawdd aer, y materion maen nhw'n sylwi arnynt yn eu cymdogaethau a'r hyn maen nhw'n credu ddylai gael blaenoriaeth. Fe wnaeth cyfraniadau gan grwpiau lleol, busnesau a chynrychiolwyr cymunedol roi cipolwg i ni o realiti bob dydd ansawdd aer yn nhrefi a phentrefi Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r cyfuniad hwn o dystiolaeth a llais cymunedol wedi helpu i greu Strategaeth a siapiwyd gan y bobl y mae'n eu gwasanaethu. Mae crynodeb o ganlyniadau'r arolwg ymgysylltu â'r gymuned ar gael yn Appendix A.




2 Pam mae angen i ni wella ansawdd aer?


Mae gwella ansawdd aer yn hanfodol i ddiogelu iechyd, lles a gwydnwch economaidd cymunedau ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae ansawdd aer wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf; ond mae hyd yn oed lefelau cymharol isel o lygredd yn gallu effeithio ar bobl o bob oed, yn enwedig grwpiau agored i niwed a chymunedau sydd eisoes yn profi amddifadedd. Mae tystiolaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn dangos mai llygredd aer yw'r risg amgylcheddol fwyaf arwyddocaol i iechyd y cyhoedd o hyd, ac mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyfrifoldeb i ddiogelu cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol^{1,2,3,4,5,6,7}.

2.1 Effeithiau llygredd aer ar iechyd

Llygredd aer yw'r bygythiad amgylcheddol mwyaf i iechyd yng Nghymru. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn amcangyfrif y gellir priodoli 1,000-1,400 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru i ddod i gysylltiad hirdymor â llygredd aer⁸, ac mae tystiolaeth wyddonol gref bellach bod llygredd aer yn effeithio ar bob organ o'r corff^{9,10}. Mae hyn yn cynnwys yr ymennydd, yr ysgyfaint, y galon, yr afu a'r arennau a'r 700 o gyflyrau iechyd sydd bellach yn gysylltiedig â llygredd aer.

Y prif lygryddion sy'n peri pryder i iechyd pobl yw nitrogen deuocsid (NO₂) a deunydd gronynnol mân (PM_{2.5}). Mae'r rhain yn gallu:





Gall dod i gysylltiad tymor byr â llygredd aer achosi llid i'r llygaid, y trwyn a'r gwddf, anawsterau anadlu, pyliau o asthma ac effeithio ar weithrediad yr ysgyfaint, tra gall dod i gysylltiad hirdymor leihau disgwyliad oes. Mae plant, pobl ifanc, oedolion hŷn a'r rhai sydd â chyflyrau iechyd isorweddol ymhlith y grwpiau sy'n profi'r niwed mwyaf, hyd yn oed ar grynodiadau cymharol isel o lygredd.

Bydd gwella ansawdd aer Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cyflwyno manteision iechyd eang, gan helpu i atal salwch a gwella lles hirdymor ledled y fwrdeistref.

- 1 Llywodraeth Cymru. (2025) Rheoliadau Targedau Ansawdd Aer (Deunydd Gronynnol Mân) (Cymru) 2026: Asesiad Effaith Integredig Adrannau 1 ac 8. Ar gael ar-lein: <https://www.llyw.cymru/targedau-ansawdd-aer-ar-gyfer-deunydd-gronynnol-man-asesiad-effaith-integredig-adrannau-1-ac-8-html>
- 2 Iechyd Cyhoeddus Cymru. (2020) Llygredd aer ac iechyd yng Nghymru. Ar gael ar-lein: <https://phw.nhs.wales/services-and-teams/environmental-public-health/air-quality/air-pollution-and-health-fact-sheet/>
- 3 Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru. (dim dyddiad) Ansawdd aer. Ar gael ar-lein: <https://rhwydwaithiechydchyhoeddus.cymru/Testun/amgylchedd/amgylchedd-naturiol/ansawdd-aer/>
- 4 Office for Health Improvement & Disparities. (2022) Air pollution: applying All Our Health. Ar gael ar-lein: <https://www.gov.uk/government/publications/inclusion-health-applying-all-our-health/inclusion-health-applying-all-our-health>
- 5 Sefydliad Iechyd y Byd. (2024) Ambient (outdoor) air pollution. Ar gael ar-lein: [https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/ambient-\(outdoor\)-air-quality-and-health](https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/ambient-(outdoor)-air-quality-and-health)
- 6 Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop. (2026) Air pollution. Ar gael ar-lein: <https://www.eea.europa.eu/en/topics/in-depth/air-pollution?activeAccordion=4268d9b2-6e3b-409b-8b2a-b624c120090d>
- 7 Llywodraeth Cymru. (dim dyddiad). Cyngor iechyd. Ar gael ar-lein: <https://www.airquality.gov.wales/cy/about-air-quality/health-advice>
- 8 Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru. (2024). Aer Glân i Gymru. Ar gael ar-lein: <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/aer-glan-i-gymru/>
- 9 Sefydliad Iechyd y Byd. (dim dyddiad). Air pollution, deprivation and health: Health Impacts. Ar gael ar-lein: <https://www.who.int/teams/environment-climate-change-and-health/air-quality-energy-and-health/health-impacts>
- 10 Coleg Brenhinol y Meddygon. (2025). A breath of fresh air: responding to the health challenges of modern air pollution. Ar gael ar-lein: <https://www.rcp.ac.uk/policy-and-campaigns/policy-documents/a-breath-of-fresh-air-responding-to-the-health-challenges-of-modern-air-pollution>
- 11 Panel Cyngori ar Aer Glân. (2024) Advice Note (2024): Development of New PM2.5 Air Quality Targets for Wales. Ar gael ar-lein: <https://www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2025-11/annex-a-advice-note-development-of-new-pm2-5-air-quality-targets-for-wales-clean-air-advisory-panel-november-2025.pdf>

2.2 Effeithiau llygredd aer ar yr economi

Mae ansawdd aer gwael yn cael effeithiau difrifol ar economi Cymru a'r DU. Mae Coleg Brenhinol y Meddygon yn amcangyfrif bod y gostyngiad mewn disgwyliad oes, y cynnydd mewn gwariant gofal iechyd a cholledion o ran cynhyrchiant yn costio tua £27 biliwn y flwyddyn i'r DU, gan gynyddu i gymaint â £50 biliwn y flwyddyn pan ystyrir effeithiau ehangach, fel dementia¹². Mae'r costau hyn yn cael eu llywio gan dderbyniadau i'r ysbyty, triniaeth hirdymor cyflyrau iechyd cronig ac effeithiau ehangach pobl sydd angen cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd afiechydon sy'n gysylltiedig â llygredd aer.



Llai o alw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n rhoi baich cost sylweddol ar y GIG a systemau gofal lleol.



Gwell lefelau cynhyrchiant a phresenoldeb yn y gwaith a'r ysgol, gyda llai o salwch sy'n gysylltiedig â llygredd, llai o absenoldeb oherwydd salwch a gwell amodau ar gyfer dysgu a gweithgarwch corfforol plant.

Felly, gall aer glanach gyflwyno manteision economaidd a chymdeithasol mawr i Fwrdeistref Sirol Caerffili

Gweithlu iachach a mwy gwydn, sy'n cefnogi perfformiad economaidd hirdymor cryfach ar draws y fwrdeistref.

Trefi a chymdogaethau mwy deniadol ac economaidd-fywiog, gan helpu i gefnogi adfywio a buddsoddi, a gwneud Bwrdeistref Sirol Caerffili yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.



2.3 Llygredd aer a thegwch cymdeithasol

Nid yw llygredd aer yn effeithio ar bawb yr un fath. Mae tystiolaeth o Gymru, y DU a Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn dangos bod ansawdd aer gwael yn gwaethygu anghydraddoldebau presennol, gyda'r beichiau iechyd mwyaf yn disgyn ar gymunedau sydd eisoes yn fwy agored i niwed^{12,13,14}. Mae'r patrymau hyn yn adlewyrchu penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd, lle mae ffactorau fel oedran, cyflyrau iechyd hirdymor, mynediad at wasanaethau ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn cyfuno â chysylltiad amgylcheddol i siapio canlyniadau iechyd. Felly, mae gwella ansawdd aer ym Mwrdeistref Sirol Caerffili nid yn unig yn flaenoriaeth amgylcheddol, ond hefyd yn hanfodol ar gyfer tegwch, tegwch iechyd a lles hirdymor.

Mae cysylltiad annatod rhwng llygredd aer, amddifadedd ac iechyd gwael, gydag ardaloedd mwy difreintiedig yn aml yn profi lefelau llygredd uwch a mwy o fregusrwydd iechyd. Mae poblogaethau mwy agored i niwed yn fwy tebygol o fyw ger ffyrdd prysurach neu ardaloedd â llygredd cefndir uwch ac yn fwy tebygol o fod â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes sy'n gwaethygu yn sgil ansawdd aer gwael. Mae'r anghydraddoldebau hyn yn golygu mai cymunedau difreintiedig, sydd fel arfer yn cyfrannu leiaf at allyriadau ac sy'n llai tebygol o elwa ar ymyriadau lleihau llygredd aer, sy'n dioddef yr effeithiau mwyaf ar iechyd, gan ategu'r gwahaniaethau cymdeithasol ac iechyd ehangach.

2.3.1 Anghydraddoldebau iechyd ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili

Nid yw canlyniadau iechyd yr un fath ym mhobman, ac mae rhai cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn wynebu amgylchiadau a allai eu gwneud yn fwy sensitif i effeithiau llygredd aer. Mae data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn dangos bod rhai rhannau o Fwrdeistref Sirol Caerffili yn profi lefelau uwch o salwch hirdymor, cyflyrau iechyd neu lai o fynediad at wasanaethau¹⁵. Gallai'r ffactorau iechyd a chymdeithasol sylfaenol hyn gynyddu bregusrwydd i lygryddion aer fel PM_{2.5} a NO₂. Mae ystadegau poblogaeth¹⁶ hefyd yn dangos bod gan sawl cymdogaeth ym Mwrdeistref Sirol Caerffili gyfran uwch o blant ac oedolion hŷn, sy'n cael eu heffeithio mwy gan lygredd aer oherwydd bod eu hysgyfaint a'u systemau imiwnedd yn dal i ddatblygu neu'n llai gwydn.

Pan gaiff y nodweddion poblogaeth cymdeithasol ac economaidd hyn eu hystyried ochr yn ochr â mapiau crynodiad PM_{2.5} 2024¹⁷, fel y dangosir yn Ffigur 1, mae nifer o gymdogaethau mwy agored i niwed Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cyfateb i ardaloedd lle mae crynodiadau PM_{2.5} ychydig yn uwch.

12 Coleg Brenhinol y Meddygon. (2025). A breath of fresh air: responding to the health challenges of modern air pollution. Ar gael ar-lein: <https://www.rcp.ac.uk/policy-and-campaigns/policy-documents/a-breath-of-fresh-air-responding-to-the-health-challenges-of-modern-air-pollution>

13 H. Brunt, J. Barnes, S.J. Jones, J.W.S. Longhurst, G. Scally, E. Hayes. (2017). Air pollution, deprivation and health: understanding relationships to add value to local air quality management policy and practice in Wales, UK. *Journal of Public Health*, 39(3), pp. 485–497, <https://doi.org/10.1093/pubmed/fdw084>

14 Sefydliad Iechyd y Byd. (dim dyddiad). Air pollution, deprivation and health: Equity impacts of air pollution. Ar gael ar-lein: <https://www.who.int/teams/environment-climate-change-and-health/air-quality-and-health/health-impacts/equity-impacts>

15 StatsCymru. (2025) Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2025: safeloedd a grwpiau y mynegai a meysydd, fesul Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) (LSOA). Ar gael ar-lein: <https://stats.gov.wales/en-GB/9706edd9-73ad-4902-bb12-7ccd7038626e>


16 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2025). Lower layer Super Output Area population estimates (supporting information). Ar gael ar-lein: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/lowersuperoutputareamidyearpopulationestimates>

17 UKAir. (2021). Background Mapping data for local authorities – 2021. Ar gael ar-lein: <https://uk-air.defra.gov.uk/data/laqm-background-maps?year=2021>

Mae ardaloedd â lefelau llygredd ychydig yn uwch ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'u cysgodi â lliw cynhesach (coch, oren a melyn), ac mae'r cymdogaethau dotiog yn cynrychioli cymunedau sydd â chyfran uwch o drigolion iau, trigolion hŷn neu'r rhai o fewn y 25% mwyaf difreintiedig ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Er bod lefelau llygredd cyffredinol yn parhau i fod yn is na'r terfynau cyfreithiol cyfredol, gall preswylwyr yn y cymunedau hyn brofi mwy o effaith bosibl ar iechyd oherwydd cyflyrau iechyd presennol a/neu sensitifrwydd sy'n gysylltiedig ag oedran.

Nid yw'r patrymau hyn yn dangos bod unrhyw un gymuned yn gyfrifol am lygredd aer, na bod ansawdd aer gwael wedi'i gyfyngu i ardaloedd penodol. Yn hytrach, maen nhw'n adlewyrchu tueddiadau ehangach a welir ledled Cymru, lle gall bregusrwydd iechyd a phwysau amgylcheddol orgyffwrdd mewn rhai mannau. Mae deall y cysylltiadau hyn yn helpu'r Cyngor i nodi lle gall gwelliannau i ansawdd aer gyflwyno'r manteision iechyd mwyaf, gan sicrhau bod cymorth yn cael ei gyfeirio at lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf cadarnhaol.

Ffigur 1: Cymunedau sy'n agored i niwed ym Mwrdeistref Sirol Caerffili wedi'u troshaenu ar gyfartaledd crynodiadau $PM_{2.5}$, 2024. Mae lliwiau cynhesach (melyn, oren, coch) yn nodi ardaloedd sydd â lefelau $PM_{2.5}$ ychydig yn uwch, tra bod cymdogaethau dotiog yn tynnu sylw at gymunedau sydd â chyfran uwch o blant, oedolion hŷn neu lefelau uwch o amddifadedd. Mae'r map yn dangos lle gall bregusrwydd iechyd a phwysau ansawdd aer orgyffwrdd.



2.4 Safonau ansawdd aer yng Nghymru

Mae ansawdd aer ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei siapio gan safonau Cymru, y DU a rhyngwladol sy’n llywio sut mae llygredd aer yn cael ei fonitro, ei asesu a’i leihau. Mae gan Gymru un o’r fframweithiau ansawdd aer mwyaf cadarn yn y DU, wedi’i gryfhau gan **Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024**¹⁸, sy’n ei gwneud yn ofynnol i weinidogion Cymru osod targedau ansawdd aer cenedlaethol, adolygu cynnydd, codi ymwybyddiaeth a diweddarau dyletswyddau Rheoli Ansawdd Aer Lleol ar gyfer cynghorau. Mae’r dyletswyddau hyn yn adeiladu ar rwymedigaethau cynharach o dan **Ddeddf yr Amgylchedd 1995**¹⁹ a **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**²⁰.

Er bod Cymru’n cymhwyso terfynau cyfreithiol y DU²¹ ar gyfer llygryddion allweddol, mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)²² yn argymhell lefelau hyd yn oed is, gan bwysleisio nad oes lefel ddiogel o lygredd aer a bod angen gwella’n barhaus. Fodd bynnag, mae cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru yn dangos nad yw bodloni canllawiau PM_{2.5} Sefydliad Iechyd y Byd yn y tymor byr yn realistig i Gymru gan fod cyfran gymharol sylweddol o PM_{2.5} yn dod o ffynhonnell naturiol a hirbell sydd y tu hwnt i reolaeth genedlaethol, gan gynnwys halen môr, ffrwydradau folcanig a gronynnau a gludir o’r tu allan i Gymru²³. Mae’r cyfraniadau cenedlaethol a rhanbarthol hyn, y rhagwelir y byddant yn cyfrif am hyd at 78% o gyfanswm crynodiadau PM_{2.5} yng Nghymru yn 2030²⁴, yn helpu i esbonio pam na all lefelau PM_{2.5} cefndir byth gyrraedd sero, a pham mae’n well ystyried canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd fel uchelgais iechyd hirdymor, yn hytrach na gofyniad cyfreithiol uniongyrchol.

Tabl 1: Safonau crynodiad llygryddion cymedrig blynyddol mewn microgram fesul metr ciwbig (µg/m³) yn seiliedig ar ganllawiau Sefydliad Iechyd y Byd 2021 a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer y DU 2010.

Llygrydd	Canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (2021)	Safon Ansawdd Aer Cymru (2010)
Nitrogen deuocsid (NO ₂)	10 µg/m ³	40 µg/m ³
Deunydd gronynnol mân (PM _{2.5})	5 µg/m ³	25 µg/m ³

Fel rhan o’i hymrwymiad dan Ddeddf 2024, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad ar osod targed PM_{2.5} cenedlaethol llymach, gan adlewyrchu’r dystiolaeth gynyddol o’i effeithiau sylweddol ar iechyd a’r angen i gyd-fynd yn agosach ag arferion gorau rhyngwladol. Nod y gwaith hwn yw cyflwyno terfynau mwy uchelgeisiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn well, yn enwedig grwpiau agored i niwed. Disgwylir i’r targedau wedi’u diweddarau gael eu drafftio fel offerynnau statudol erbyn mis Chwefror 2027 ac mae manylion yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru: <https://www.llyw.cymru/targedau-ansawdd-aer-ar-gyfer-deunydd-gronynnol-man>.

18 Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024. Ar gael ar-lein: <https://cyfraith.llyw.cymru/deddf-yr-amgylchedd-ansawdd-aer-seinweddau-cymru-2024>

19 Deddf yr Amgylchedd 1995. Ar gael ar-lein: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1995/25/contents>

20 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Ar gael ar-lein: <https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/welsh>

21 Defra. (2010) UK Air Quality Limits. Ar gael ar-lein: <https://uk-air.defra.gov.uk/air-pollution/uk-limits>

22 Sefydliad Iechyd y Byd. (2021) WHO global air quality guidelines: particulate matter (PM2.5 and PM10), ozone, nitrogen dioxide, sulfur dioxide and carbon monoxide. Ar gael ar-lein: <https://www.who.int/publications/i/item/9789240034228>

23 Panel Cynghori ar Aer Glân. (2024) Advice Note (2024): Development of New PM2.5 Air Quality Targets for Wales. Ar gael ar-lein: <https://www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2025-11/annex-a-advice-note-development-of-new-pm2-5-air-quality-targets-for-wales-clean-air-advisory-panel-november-2025.pdf>

24 Llywodraeth Cymru. (2025) Gweler Ffigur 3 yn Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, Sicrhau aer glanach ac iachach: Ymgynghoriad ar reoliadau drafft i roi targedau ansawdd aer ar gyfer deunydd gronynnol mân (PM2.5) ar waith. Ar gael ar-lein: www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2025-11/dogfen-ymgynghori-targedau-ansawdd-aer-ar-gyfer-deunydd-gronynnol-man.pdf

3 Ansawdd aer ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o ansawdd aer cyfredol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, gan ddefnyddio gwaith monitro lleol, setiau data cenedlaethol a thueddiadau hirdymor i esbonio sut mae lefelau llygredd yn amrywio ar draws yr ardal a ble mae'r heriau a'r cyfleoedd allweddol.


3.1 Monitro ansawdd aer

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn monitro ansawdd aer ledled y fwrdeistref i ddeall lefelau llygredd lleol a sut maen nhw'n newid dros amser. Mae hyn yn ein helpu i ddeall lle mae angen gwelliannau ac yn sicrhau ein bod ni'n parhau i fodloni safonau ansawdd aer cenedlaethol a diogelu iechyd y cyhoedd.

Ar hyn o bryd, mae gennym rwydwaith o 4 gorsaf fonitro awtomatig a 56 tiwb tryledu ar draws 52 lleoliad yn y fwrdeistref, gan gwmpasu canol trefi, ardaloedd preswyl a ffyrdd prysur. Mae'r safleoedd hyn yn mesur llygryddion aer allweddol fel nitrogen deuocsid (NO_2) a deunydd gronynnol (PM_{10} a $\text{PM}_{2.5}$). Dewisir lleoliadau monitro ar sail canllawiau Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM)

Llywodraeth Cymru, sy'n blaenoriaethu'r ardaloedd lle mae pobl yn fwyaf tebygol o ddod i gysylltiad â llygredd. O ganlyniad, mae mwy o fonitorau yn cael eu gosod mewn rhannau prysurach o'r fwrdeistref lle mae mwy o draffig a datblygiad. Ar y llaw arall, mae llai o safleoedd monitro mewn ardaloedd gogleddol gan eu bod yn fwy gwledig, gyda lefelau traffig is, a risg is o fod uwchlaw'r amcanion cenedlaethol. Mewn sawl lleoliad lle mae monitro hirdymor wedi dangos cydymffurfiaeth gyson â therfynau NO_2 cenedlaethol, mae gwaith monitro wedi'i ddileu'n raddol yn unol â chanllawiau LAQM. Mae'r rhwydwaith yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a lleoliadau newydd yn cael eu hychwanegu pan fydd patrymau datblygu neu adborth cymunedol yn dangos angen.

Ffigur 2: Safleoedd monitro llygredd aer (awtomatig a thiwbiau tryledu) ac Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn 2024.




Ar y cyfan, mae ansawdd aer ym Mwrdeistref Sirol Caerffili wedi gwella dros y 5 mlynedd diwethaf. Cynyddodd lefelau nitrogen deuocsid ychydig wrth i lefelau traffig ddychwelyd i normal ar ôl y pandemig COVID-19, ond ers hynny maen nhw wedi parhau i ostwng. Erbyn 2024, roedd yr holl safleoedd monitro yn is na'r amcanion NO₂ cenedlaethol, ac ni chofnodwyd unrhyw ormodiant yn ein monitorau awtomatig.


Mae deunydd gronynnol (PM₁₀ a PM_{2.5}) hefyd yn cael ei fonitro mewn lleoliadau dethol. Mae crynodiadau cyfartalog blyneddol PM₁₀ yn dilyn tuedd debyg i NO₂ ac, yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ni welwyd mwy na dau ormodiant tymor byr ar unrhyw safle ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Mae lefelau PM_{2.5} a fesurwyd ar ein safle yn Fochriw wedi bodloni Amcanion Ansawdd Aer Cymru a chanllawiau rhyngwladol yn gyson, a gwelwyd gostyngiad pellach ar ôl i'r safle glo brig gerllaw gau yn 2023.

Ar hyn o bryd, mae gan Fwrdeistref Sirol Caerffili ddwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) yng nghanol tref Caerffili ac ar Hafod-yr-ynys Road, y ddwy wedi'u datgan yn wreiddiol oherwydd lefelau NO₂ uchel sy'n gysylltiedig â thraffig ffyrdd a lefelau tagfeydd uchel²⁵. Mae gwaith monitro diweddar wedi dangos gwelliannau parhaus yn y ddau leoliad, ac mae'r Cyngor bellach yn adolygu a oes modd dirymu AQMA Canol Tref Caerffili. Mae'r gwaith monitro yn parhau ar Hafod-yr-ynys Road i sicrhau bod tueddiadau cadarnhaol diweddar yn cael eu cynnal.

Ffigur 3: Safleoedd monitro llygredd aer yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Canol Tref Caerffili yn 2024



25 Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer a ddatganwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili <https://www.airquality.gov.wales/laqm/air-quality-management-areas>

Ffigur 4: Safleoedd monitro llygredd aer yn Ardal Rheoli Ansawdd Aer Hafod-yr-ynys Road yn 2024

Wrth i ni symud ymlaen gyda'r Strategaeth Ansawdd Aer newydd, byddwn yn parhau i gryfhau a mireinio ein rhwydwaith monitro. Mae hyn yn cynnwys adolygu lleoliadau yn rheolaidd, ychwanegu monitro lle mae datblygiadau newydd neu newidiadau traffig yn digwydd a rhoi sylw arbennig i leoedd lle gall pobl fod yn fwy agored i niwed, fel ysgolion, strydoedd preswyl a llwybrau cerdded prysur.

Bob blwyddyn, rydyn ni'n rhannu ein canlyniadau monitro diweddaraf ac yn adrodd ar y camau a gymerwyd i wella ansawdd aer yn ein Hadroddiad Cynnydd Blynnyddol ar Ansawdd Aer, sydd i'w weld ar ein gwefan [Caerffili - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#).

3.2 Beth sy'n achosi llygredd aer ym Mwrdeistref Sirol Caerffili?

Mae llygredd aer ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn deillio o gymysgedd o weithgareddau bob dydd, o fewn y fwrdeistref ac o ffynonellau rhanbarthol ehangach. Mae llygryddion gwahanol yn cael eu cynhyrchu gan fathau gwahanol o weithgareddau, felly mae deall o ble mae'r llygryddion hyn yn dod yn ein helpu i dargedu ein hymdrechion i wella ansawdd aer yn fwy effeithiol a diogelu iechyd ein cymunedau.

3.2.1 Ffynonellau llygredd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili

Mae'r siartiau cylch yn Ffigur 5 yn dangos sut mae allyriadau nitrogen deuocsid (NO_2), deunydd gronynnol bras (PM_{10}) a deunydd gronynnol mân ($\text{PM}_{2.5}$) yn deillio o ffynonellau gwahanol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, yn seiliedig ar ddata allyriadau sector-benodol 2023 o Restr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol y DU (NAEI). Mae hyn yn defnyddio data allyriadau grid 1 km² ar gyfer pob llygrydd a sector, gan gynnwys ffynonellau penodol.



Cludiant ar y ffordd

Cludiant ar y ffordd yw'r cyfrannwr mwyaf at allyriadau NO_x ym Mwrdeistref Sirol Caerffili (41%) ac mae hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddeunydd gronynnol (17% o PM_{10} a 18% o $\text{PM}_{2.5}$). Mae hyn yn adlewyrchu allyriadau o geir, bysiau, cerbydau nwyddau trwm a cherbydau eraill sy'n mynd trwy drefi a phrif lwybrau'r fwrdeistref. Mae lleihau traffig, tagfeydd ac injans yn segura yn hanfodol ar gyfer lleihau llygredd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.



Diwydiant, gweithgynhyrchu a gwresogi

Mae gweithgarwch diwydiannol hefyd yn chwarae rhan allweddol o ran llygredd aer ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Mae prosesau gweithgynhyrchu yn cyfrif am 19% o NO_x , 13% o PM_{10} a 22% o $\text{PM}_{2.5}$. Daw allyriadau ychwanegol o weithfeydd hylosgi anniwydiannol (fel systemau gwresogi domestig a masnachol), gan gyfrannu 11% o NO_x , 15% o PM_{10} a 27% o $\text{PM}_{2.5}$.

Mae'r ffynonellau hyn yn pwysleisio sut mae gwresogi a defnyddio ynni yn y cartref ac mewn gweithleoedd yn cyfrannu'n sylweddol at lygredd gronynnol, yn enwedig y deunydd gronynnol mân ($\text{PM}_{2.5}$) sy'n cael mwy o effeithiau ar iechyd.



Prosesau cynhyrchu a pheiriannau

Mae prosesau cynhyrchu diwydiannol yn gyfrifol am y gyfran fwyaf o allyriadau PM_{10} (36%), yn ogystal ag 8% o $\text{PM}_{2.5}$. Er nad yw'r ffynonellau hyn yn cyfrannu rhyw lawer at NO_x , mae eu dylanwad ar lefelau gronynnol yn sylweddol. Daw cyfraniadau llai o beiriannau symudol eraill hefyd, fel offer adeiladu a pheiriannau oddi ar y ffordd, sy'n cyfrannu tua 5% o NO_x , 1% o PM_{10} a 2% o $\text{PM}_{2.5}$.



Tarddleoedd penodol a chynhyrchu ynni

Mae tarddleoedd penodol, sef staciau diwydiannol neu fasnachol mwy o faint fel arfer, yn cyfrif am 22% o allyriadau NO_x , er bod eu cyfraniad at ddeunydd gronynnol yn llai (2% o PM_{10} a 3% o $\text{PM}_{2.5}$). Mae'r allyriadau hyn yn deillio yn bennaf o sectorau fel cyfleusterau trin gwastraff, lle gall hylosgi wrth drin gwastraff ryddhau NO_x ; gweithgynhyrchu bwyd a diod, sy'n defnyddio boeleri ac offer coginio diwydiannol; a'r diwydiant mwynau, lle mae chwarela a phrosesu deunyddiau yn cynnwys gweithfeydd tymheredd uchel sy'n cynhyrchu allyriadau hylosgi.

Ychydig iawn o allyriadau sy'n cael eu creu gan ddulliau cynhyrchu ynni ym Mwrdeistref Sirol Caerffili (llai na 1% o gyfanswm yr allyriadau ar gyfer y rhan fwyaf o lygryddion).




Gwastraff, amaethyddiaeth a gweithgareddau bob dydd

Mae rhywfaint o lygredd aer yn deillio o weithgareddau bob dydd a gwasanaethau lleol:

- Mae rheoli gwastraff yn cyfrannu <1% of NO_x , 8% of PM_{10} ac 14% o allyriadau $\text{PM}_{2.5}$, yn enwedig trwy brosesau trin gwastraff a hylosgi.
- Bach iawn yw cyfraniad amaethyddiaeth a ffermio ar draws yr holl lygryddion (tua 1-2% o'r allyriadau).
- Mae defnyddio toddyddion, megis mewn cynhyrchion glanhau a phaent, yn cyfrif am 2% o allyriadau PM_{10} a $\text{PM}_{2.5}$.

Er eu bod yn fach yn nhermau unigol, mae'r ffynonellau hyn yn dangos faint o weithgareddau bob dydd sy'n ychwanegu at lygredd aer lleol.

Ffigur 5: Prif ffynonellau allyriadau NO_x , PM_{10} a $\text{PM}_{2.5}$ yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn seiliedig ar ddata Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol y DU 2023²⁶



²⁶ Allyriadau grid 1 km² sy'n benodol i lygryddion (2023) ar draws sectorau a tharddleuoedd penodol o'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol: <https://naei.energysecurity.gov.uk/data/maps/download-gridded-emissions>

3.2.2 Ffynonellau llygredd aer y tu allan i Fwrdeistref Sirol Caerffili

Mae ansawdd aer ym Mwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei ddylanwadu nid yn unig gan ffynonellau lleol, ond hefyd gan weithgareddau y tu allan i ffiniau'r sir. Gall llygryddion, yn enwedig deunydd gronynnol, deithio pellteroedd hir, sy'n golygu bod allyriadau o awdurdodau cyfagos a rhanbarth ehangach y De yn cyfrannu at amodau ansawdd aer lleol. Fel y soniwyd yn gynharach, gall cyfraniadau cenedlaethol a rhanbarthol gyfrif am hyd at 78% o gyfanswm crynodiadau PM_{2.5} yng Nghymru.²⁷

Gan fod y ffynonellau allanol hyn y tu allan i reolaeth uniongyrchol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, mae gwelliannau mewn ansawdd aer lleol yn dibynnu nid yn unig ar gamau gweithredu o fewn y fwrdeistref, ond hefyd ar ymdrechion rhanbarthol a chenedlaethol ehangach. Felly, mae cydweithio ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol yn hanfodol i olrhain heriau ansawdd aer cyffredin a mynd i'r afael â'r ffynonellau na all Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddylanwadu arnynt ar ei ben ei hun. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio'n agos gyda chynghorau cyfagos a Llywodraeth Cymru i rannu data, cydlynu polisiau trafndiaeth a chynllunio, a chefnogi dull cyson o reoli ansawdd aer ledled y De.

3.2.3 Beth mae hyn yn ei olygu i Fwrdeistref Sirol Caerffili

Mae deall y cymysgedd o ffynonellau llygredd y tu mewn a'r tu allan i'r fwrdeistref yn helpu'r Cyngor i ganolbwyntio camau gweithredu ar ble y cânt yr effaith fwyaf. Yn lleol, mae hyn yn golygu targedu allyriadau trafndiaeth, arferion diwydiannol a gwresogi glanach, a mynd i'r afael â ffynonellau llygredd gronynnol bob dydd. Ar yr un pryd, gan fod rhai llygryddion yn teithio o'r tu allan i'r fwrdeistref, mae'n hollbwysig parhau i gydweithio ag awdurdodau cyfagos a Llywodraeth Cymru i reoli llygredd aer trawsffiniol. Mae'r dull cyfunol hwn yn galluogi'r Cyngor i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn well a chefnogi gwelliannau hirdymor i ansawdd aer ledled Caerffili.

²⁷ Llywodraeth Cymru. (2025) Gweler Ffigur 3 yn Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru, Sicrhau aer glanach ac iachach: Ymgynghoriad ar reoliadau drafft i roi targedau ansawdd aer ar gyfer deunydd gronynnol mân (PM_{2.5}) ar waith. Ar gael ar-lein: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2025-11/dogfen-ymgyngghori-targedau-ansawdd-aer-ar-gyfer-deunydd-gronynnol-man.pdf>




4 Camau gweithredu ar draws meysydd thematig

Fel rhan o'r Strategaeth Ansawdd Aer hon, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymrwymo i raglen benodol o gamau gweithredu wedi'u strwythuro o amgylch pedwar maes blaenoriaeth allweddol. Gyda'i gilydd, mae'r meysydd gweithredu hyn yn mynd i'r afael â'r prif ffynonellau allyriadau yn y fwrdeistref ac yn adlewyrchu tystiolaeth leol a chyfeiriad polisi cenedlaethol.

Nodwyd y pedwar maes blaenoriaeth yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o bolisiâu, strategaethau a fframweithiau rheoleiddio presennol sy'n gweithredu ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'r DU. Cyfunwyd yr adolygiad polisi hwn â dadansoddiad o ddata ansawdd aer lleol ac adborth a gasglwyd trwy allgymorth cymunedol, gan ystyried lle mae gan y Cyngor y dylanwad a'r pŵer mwyaf i hwyluso newid.

Mae cynnwys trigolion, rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol wedi chwarae rhan bwysig wrth lywio'r Strategaeth. Mae canlyniadau'r arolwg cyhoeddus yn tynnu sylw at y materion sy'n peri'r pryder mwyaf i gymunedau lleol ac yn ategu'r angen am gyfathrebu cliriach, cydlynu cryfach a chamau gweithredu ymarferol. Felly, mae'r meysydd gweithredu a ddewiswyd yn adlewyrchu'r sylfaen dystiolaeth dechnegol a'r blaenoriaethau a fynegir gan drigolion, gan sicrhau bod y Strategaeth yn ymateb yn uniongyrchol i'r materion pwysicaf i bobl ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili.



4.1 Lleihau allyriadau traffig ffyrdd

Mae allyriadau cludiant ar y ffordd wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ledled y fwrdeistref o ganlyniad i gamau a gymerwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ynghyd â datblygiadau technolegol a ysgogwyd gan safonau allyriadau cerbydau a mesurau a pholisïau eraill a ddeddfwyd gan lywodraeth y DU. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, cludiant ar y ffordd yw'r ffynhonnell fwyaf o NO_x a NO₂ ym Mwrdeistref Sirol Caerffili o hyd ac mae'n cyfrannu'n fawr at allyriadau deunydd gronynnol.

Yn unol ag uchelgeisiau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd²⁸, yn ogystal â buddsoddiad trwy Trafnidiaeth Cymru, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn blaenoriaethu newid tuag at drafnidiaeth gynaliadwy, gan leihau'r ddibyniaeth ar deithio mewn car preifat a galluogi dewisiadau glanach ac iachach.

Trwy'r Strategaeth Ansawdd Aer hon, mae'r Cyngor yn ymrwymo i weithredu mewn tri maes allweddol, a ddisgrifir yn yr is-adrannau canlynol.

4.1.1 Trafnidiaeth gyhoeddus

Mae gwella ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus ranbarthol yn hanfodol i leihau allyriadau traffig ffyrdd. Mae Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRTP) yn nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth carbon isel sydd wedi'i gysylltu'n dda ac sy'n darparu dewisiadau amgen hyfyw yn lle defnyddio ceir preifat, yn enwedig ar gyfer cymudo a theithio rhanbarthol.

Elfen allweddol o'r trawsnewidiad hwn yw cyflwyno Metro De Cymru²⁹ gan Trafnidiaeth Cymru (TrC). Bydd ehangu rhwydwaith y rheilffyrdd yn darparu gwasanaethau rheilffyrdd gwell, gorsafoedd newydd â wasanaethau amlach, ac integreiddio gwell rhwng gwasanaethau rheilffyrdd a bysiau'r fwrdeistref. Bydd trydaneiddio a cherbydau rheilffyrdd modern yn lleihau allyriadau fesul taith teithiwr wrth wella dibynadwyedd ac amseroedd teithio.

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol i gyflawni'r canlynol:

- Cefnogi gwaith integreiddio'r metro, gan gynnwys mynediad gwell i orsafoedd a chyfleusterau cyfnewidfa;
- Gwella seilwaith bysiau lleol a mesurau blaenoriaeth i wella dibynadwyedd amser teithio;
- Hyrwyddo teithio aml-ddull trwy gyfrwng tocynnau integredig, gwybodaeth amser real a chyfleusterau gwell i deithwyr;
- Annog newid dulliau teithio o gar preifat i drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer cymudo a theithiau hirach.

4.1.2 Trafnidiaeth egniol

Mae cynyddu lefelau cerdded, olwyno a beicio yn allweddol i wella ansawdd aer a lleihau tagfeydd. Gall teithiau byr mewn car gyfrannu'n anghymesur at allyriadau trefol; mae helpu preswylwyr i ddewis dulliau teithio llesol ar gyfer teithiau lleol yn gallu darparu manteision uniongyrchol i ansawdd aer ac iechyd.

²⁸ Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. (2023) Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Ar gael ar-lein: [cardiff-capital-region-regional-transport-plan.pdf](#)

²⁹ Prosiect Metro De Cymru. (2025) Trafnidiaeth Cymru. Ar gael ar-lein: <https://trc.cymru/prosiectau/metro/metro-de-cymru>

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn bwrw ymlaen â chynlluniau o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru)³⁰, gan nodi a chyflawni gwelliannau i lwybrau cerdded a beicio ledled y fwrdeistref. Trwy ei Raglen Teithio Llesol³¹, mae'r Cyngor yn datblygu llwybrau mwy diogel i'r ysgol, gwella croesfannau, gwahanu seilwaith beicio a gwella cysylltiadau rhwng ardaloedd preswyl, canol trefi a chanolfannau trafndiaeth gyhoeddus.

Bydd y Cyngor yn:

- Cyflwyno a diweddarw ei Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol³² i flaenoriaethu coridorau cerdded a beicio allweddol;
- Gwella diogelwch a hygyrchedd i gerddwyr a beicwyr, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â'r angen mwyaf;
- Integreiddio llwybrau teithio llesol â chyfnwdfeydd trafndiaeth gyhoeddus i alluogi teithiau aml-ddull di-dor;
- Hyrwyddo mentrau newid ymddygiad sy'n annog preswylwyr i ddewis dulliau teithio llesol lle bo hynny'n bosibl.

4.1.3 Fflyd cerbydau

Mae allyriadau cludiant ar y ffordd nid yn unig yn cael eu dylanwadu gan sut mae pobl yn teithio, ond hefyd gan y math o gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio. Felly, mae trosglwyddo i gerbydau allyriadau isel a sero yn elfen bwysig o wella ansawdd aer lleol a lleihau allyriadau carbon.

Yn 2019, cymeradwyodd yr awdurdod Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cerbydau Trydan³³ yn nodi ei weledigaeth i *"Introduce an electric vehicle infrastructure across Caerphilly County Borough, to maximise the economic, social and environmental benefits and opportunities that the electric vehicle agenda will provide, and for electric vehicles to be a fundamental part of our fleet"*. Mae gwaith ar y gweill i wella'r seilwaith gwefru ledled y fwrdeistref yn sylweddol, gan gynnwys pwyntiau gwefru hygyrch i'r cyhoedd gyda'r nod o gefnogi cerbydau preifat a cherbydau fflyd, er mwyn annog a grymuso trigolion i newid i gerbydau trydan.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei fflyd fewnol o gerbydau hefyd, er mwyn nodi arbedion carbon ac allyriadau posibl. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu a lleihau milltiroedd y fflyd lwyd (faint o deithio mae gweithwyr yn ei wneud yn eu cerbydau eu hunain ar ran y cyngor) a nodi dewisiadau amgen allyriadau isel ar gyfer cerbydau sydd i'w disodli ar ddiwedd eu hoes.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod pwysigrwydd newid ymddygiad ehangach wrth leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â theithiau staff, gan gynnwys archwilio cyfleoedd i leihau allyriadau o gymudo staff, adolygu statws cynlluniau rhannu ceir a defnyddio cynlluniau aberthu cyflog presennol sy'n cefnogi defnydd o gerbydau allyriadau isel ochr yn ochr â chynlluniau teithio llesol fel Beicio i'r gwaith.

30 Deddf Teithio Llesol (Cymru) (2021) Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/canllawiau-ddeddf-teithio-llesol.pdf>

31 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. (dim dyddiad) Teithio Llesol. Ar gael ar-lein: <https://www.caerffili.gov.uk/services/transport-and-parking/active-travel?lang=cy-gb>

32 Llywodraeth Cymru. (2022). Map Rhwydwaith Teithio Llesol. Ar gael ar-lein: <https://mapdata.llyw.cymru/maps/active-travel-network-maps/>

33 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. (2018) Electric Vehicle Strategy. Ar gael ar-lein: <https://democracy.caerphilly.gov.uk/documents/s25387/Appendix%201.pdf>



4.2 Mwg a hylosgi domestig

Mae llosgi tanwyddau solet, gan gynnwys pren a glo, yn cyfrannu at allyriadau deunydd gronynnol mân ($PM_{2.5}$), sy'n gallu cael effeithiau sylweddol ar iechyd pobl. Er mai llosgi domestig yw'r brif ffynhonnell wresogi i rai cartrefi mewn rhannau gwledig o Fwrdeistref Sirol Caerffili, i lawer mae'n cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â gwres canolog. Mae allyriadau o stofiau llosgi coed a thanau agored yn gallu effeithio ar ansawdd aer dan do ac yn yr awyr agored.

Roedd deddfwriaeth genedlaethol yn rheoleiddio gwerthu tanwyddau solet a'r safonau ar gyfer stofiau y gellir eu gosod mewn cartrefi, gan gynnwys gofynion ar gyfer tanwyddau cymeradwy ac offer sy'n cydymffurfio â gofynion Ecodylunio. O fewn y fwrdeistref, atal, ymwybyddiaeth a rheoli niwsans yw'r prif ddulliau o reoli mwg. Mae rhagor o fanylion am y camau sy'n cael eu cymryd isod.

4.2.1 Effeithlonrwydd ynni

Cydnabyddir bod tanwyddau solet yn cael ei ystyried fel opsiwn gwresogi costeffeithiol mewn rhai cymunedau gwledig, yn enwedig lle nad yw eiddo wedi'u cysylltu â'r grid nwy. Fodd bynnag, mae mwy a mwy o gwynion ynglŷn â mwg o stofiau llosgi coed.

Mae'r Cyngor yn cefnogi gwelliannau effeithlonrwydd ynni trwy gynlluniau grant a rhaglenni ôl-osod tai gyda'r nod o wella effeithlonrwydd boeleri, gosod deunydd inswleiddio a systemau gwresogi. Mae'r rhaglenni hyn yn helpu aelwydydd i leihau eu costau ynni a lleihau allyriadau ar yr un pryd. Trwy'r Cynllun Grant Argyfwng Ynni (ECG), yn 2025 a 2026 rhoddwyd cyngor ynni pwrpasol i 350 o aelwydydd i gefnogi'r defnydd o fesurau effeithlonrwydd ynni. O'r rhain, mae 68 wedi cael Grant Argyfwng Ynni, gwerth cyfanswm o £301,006.47. Yn seiliedig ar ddata cyn ac ôl y cynllun, mae hyn wedi arwain at arbed 121 tonnell o CO_2 .


Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn cyflogi staff sy'n gallu darparu ymweliadau cartref ar sail adweithiol i gefnogi preswylwyr gydag arweiniad personol ar wresogi, inswleiddio ac effeithlonrwydd ynni. Mae gwybodaeth ar gael ar dudalen we [Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#).

Mae Tîm Tai y Cyngor yn uwchraddio systemau gwresogi yn ei stoc dai ei hun yn raddol, gan osod dewisiadau glanach a mwy effeithlon yn lle systemau hŷn a mwy llygredig fel rhan o raglenni gwella parhaus.

4.2.2 Addysg

Nid yw pob math o losgi ddim yn llygru cymaint â'i gilydd. Mae'r ffigur isod, a gymerwyd o adroddiad 2022 y Prif Swyddog Meddygol³⁴, yn dangos sut mae gwahanol fathau o wresogi yn amrywio'n sylweddol o ran faint o ronynnau maen nhw'n eu hallyrru.

Ffigur 6: Allyriadau PM_{2.5} cymharol o ddulliau gwresogi domestig. Addaswyd o Adroddiad Blyneddol 2022 y Prif Swyddog Meddygol.



Felly, mae'n bwysig helpu preswylwyr i ddeall sut mae llosgi domestig yn effeithio ar ansawdd aer ac iechyd, ac i hyrwyddo dewisiadau glanach, mwy diogel. Bydd y Cyngor yn datblygu cyfathrebiadau wedi'u targedu ar arferion gorau i'r rhai sy'n dibynnu ar danwyddau solet, gan bwysleisio effeithiau PM_{2.5} ar iechyd a chodi ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â thanau gwyllt yn yr awyr agored.

Pan mae mwg yn achosi niwsans neu'n effeithio ar ansawdd aer lleol, bydd y Cyngor yn parhau i ymchwilio i gwynion o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (Rhan III – Niwsans Statudol)³⁵ ac yn cymryd camau priodol lle bo angen.

4.2.3 Adolygiad parhaus

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu'r data sydd ar gael ar y defnydd o danwyddau solet domestig, mathau o dai a systemau gwresogi er mwyn deall yn well ehangder yr hyllogi tanwydd solet ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd hyn yn helpu i lywio camau gweithredu ansawdd aer yn y dyfodol a sicrhau bod cymorth a chynghor yn cael eu targedu'n briodol.

Byddwn yn dal i fonitro gwybodaeth am danau gwyllt a llosgi yn yr awyr agored ar wahân trwy ddata cwynion, gan fod y gweithgareddau hyn yn ymwneud ag effeithiau niwsans a mwg lleol. Bydd dealltwriaeth o'r adolygiad parhaus hwn yn cefnogi'r broses gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn helpu i lywio ymyriadau yn y dyfodol i leihau allyriadau mwg a diogelu iechyd cymunedol.

³⁴ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2022) Chief Medical Officers Annual Report 2022: air pollution. Ar gael ar-lein: <https://www.gov.uk/government/publications/chief-medical-officers-annual-report-2022-air-pollution>

³⁵ Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Ar gael ar-lein: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/43/part/III>

4.3 Diwydiant a masnach

Yn hanesyddol, mae gweithgareddau diwydiannol wedi chwarae rhan arwyddocaol yn natblygiad economaidd Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae treftadaeth ddiwydiannol yr ardal wedi'i chysylltu'n gryf â phyllau glo a diwydiannau cysylltiedig, sydd wedi siapia patrwm anheddu, cyflogaeth a rhwydweithiau trafndiaeth lleol. Er bod gwaith glo bellach wedi dod i ben, mae gwaddol y gorffennol diwydiannol hwn yn parhau'n rhan bwysig o hunaniaeth y wlad.

Heddiw, mae cymysgedd mwy amrywiol o weithgarwch diwydiant a masnachol yn bodoli yn y fwrdeistref, gan gynnwys gweithrediadau gweithgynhyrchu, prosesu a rheoli gwastraff. Mae'r gweithgareddau hyn yn gallu cyfrannu at allyriadau llygryddion aer fel deunydd gronynnol, NO₂ a chyfansoddion organig anweddol (VOCs).

Mae rheoleiddio a rheoli allyriadau diwydiannol yn effeithiol yn hanfodol i ddiogelu ansawdd aer lleol ac iechyd y cyhoedd. Mae'r is-adrannau canlynol yn amlinellu'r camau gweithredu mae'r Cyngor yn eu cymryd i reoli'r ffynonellau allyriadau hyn, nawr ac yn y dyfodol.

4.3.1 Fframwaith rheoleiddio a thrwyddedu

Mae gweithrediadau diwydiannol a gwastraff sydd â'r potensial i allyrru symiau sylweddol o lygryddion yn cael eu rheoli trwy gyfres o fframweithiau rheoleiddio, a nodir isod.

Trwyddedu amgylcheddol

Mae angen trwydded amgylcheddol ar rai gweithgareddau diwydiannol o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr)³⁶. Mae trwyddedau yn gosod terfynau cyfreithiol rwymol ar allyriadau i'r aer ac yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr roi mesurau rheoli priodol ar waith. Gall prosesau a ganiateir gynnwys:

- Gweithfeydd hylosgi uwchlaw maint neu gapasiti penodol;
- Prosesau trin a gorchuddio arwynebau;
- Gweithgareddau trin ac ailgylchu gwastraff penodol.

Mae trwyddedau amgylcheddol fel arfer yn cael eu cyhoeddi gan y rheoleiddiwr perthnasol (Cyfoeth Naturiol Cymru neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili) a gallant gynnwys amodau ar fonitro allyriadau, technolegau rheoli allyriadau, cynnal a chadw ac adrodd. Mae trwyddedau wedi'u cynllunio i sicrhau nad yw allyriadau diwydiannol yn achosi effeithiau annerbyniol ar ansawdd aer lleol.

Rheolaethau cynllunio

Mae ystyriaethau ansawdd aer ar gyfer datblygu diwydiannol yn cael eu rheoli trwy'r broses rheoli datblygu, lle mae ceisiadau cynllunio yn cael eu hasesu yn erbyn polisiau diogelu'r amgylchedd a dylunio perthnasol a, lle bo angen, mae amodau yn cael eu hatodi i reoli allyriadau, llwch, sŵn ac arogl.

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn archwilio cyfleoedd i gryfhau polisiau sy'n ymwneud ag ansawdd aer. Mae rhagor o wybodaeth yn adran 4.4.1.

³⁶ Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (2016) ar gyfer Cymru a Lloegr. Ar gael ar-lein: <https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2016/1154/made>

4.3.2 Pwerau a chyfrifoldebau'r cyngor

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili rai pwerau a chyfrifoldebau statudol ar gael i reoli effeithiau allyriadau diwydiannol.

Pwerau Deddf Diogelu'r Amgylchedd

O dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, gall y Cyngor ymchwilio i gwynion niwsans statudol sy'n ymwneud ag allyriadau o safleoedd diwydiannol, gan gynnwys llwch, mwg, arogl a llygryddion aer eraill. Pan fydd achos o niwsans statudol, gall y Cyngor gyflwyno hysbysiadau lleihau sy'n gofyn am gamau i leihau'r niwsans.

Gorfodi cynllunio

Trwy bwerau gorfodi cynllunio, gall y Cyngor sicrhau bod datblygiad diwydiannol yn gweithredu yn unol ag amodau cynllunio a gynlluniwyd i leihau allyriadau trwy addasu cynllun y safle, tirweddu ac oriau gweithredu, monitro allyriadau llwch, gwahardd llosgi gwastraff ac ystyried mesurau eraill i ddiogelu ansawdd yr amgylchedd.

Mae gan y Cyngor ddyletswyddau rheoleiddio ehangach hefyd, gan gynnwys:

- Rheoleiddio prosesau diwydiannol penodol o dan y system Atal a Rheoli Llygredd Aer Lleol (LAPPC);
- Gorfodi darpariaethau'r Ddeddf Aer Glân, gan gynnwys cymeradwyaethau uchder simnai a rheolaethau ar allyriadau mwg o weithgareddau diwydiannol penodol;
- Monitro cydymffurfiaeth ag amodau trwydded ar draws ystod o sectorau diwydiannol;
- Rhoi cyngor i weithredwyr i gefnogi arferion gorau a lleihau allyriadau.

4.3.3 Rheoli effeithiau diwydiannol

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda gweithredwyr, rheoleiddwyr ac awdurdodau cyfagos i sicrhau nad yw gweithgareddau diwydiannol a gwastraff yn y fwrdeistref yn cael effaith andwyol ar ansawdd aer. Mae hyn yn cynnwys:

- Cymhwyso rheolaethau cynllunio a thrwyddedu yn effeithiol;
- Defnyddio pwerau niwsans statudol lle bo angen;
- Cefnogi canllawiau arferion gorau ar gyfer rheoli allyriadau;
- Monitro ansawdd aer mewn ardaloedd diwydiannol ac ardaloedd preswyl cyfagos;
- Rhoi gwybodaeth i drigolion lleol am effeithiau iechyd a chamau lliniaru.



4.4 Adeiladu a datblygiadau newydd

Mae gweithgarwch adeiladu a datblygiadau newydd yn chwarae rhan bwysig wrth siapio ansawdd aer yn y dyfodol ar draws Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae datblygiad yn hanfodol er mwyn helpu i gyflenwi tai a chefnogi twf economaidd ac adfywio; Fodd bynnag, gall arwain at effeithiau llygredd aer tymor byr yn ystod y gwaith adeiladu, ac effeithiau tymor hwy sy'n gysylltiedig â chynhyrchu traffig, systemau gwresogi a phatrymau defnydd tir.

Felly, mae'n hanfodol rheoli'r effeithiau hyn yn effeithiol trwy'r system gynllunio i sicrhau nad yw twf yn peryglu ansawdd aer neu iechyd y cyhoedd. Mae rhagor o fanylion am sut mae'r Cyngor yn cyflawni hyn isod.

4.4.1 Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer llywio datblygiad o fewn y fwrdeistref. Er nad yw'r Cynllun mabwysiedig yn cynnwys polisi ansawdd aer annibynnol, mae darpariaethau perthnasol wedi'u hymwreiddio mewn polisiâu amgylcheddol a dylunio ehangach.

Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo ar Gynllun Datblygu Lleol newydd. Fel rhan o'r broses hon, bydd y Cyngor yn ystyried cynnwys fframwaith polisi mwy eglur sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag ansawdd aer. Gall hyn gynnwys:

- Polisi ansawdd aer pwrpasol, sy'n nodi gofynion clir ar gyfer asesu a lliniaru;
- Cysylltiadau cryfach rhwng datblygu, cynllunio trafndiaeth a lleihau allyriadau;
- Disgwyliadau clir ynghylch systemau gwresogi allyriadau isel mewn datblygiadau newydd;
- Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar gyfer datblygiadau newydd.

Trwy gryfhau fframwaith polisi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, nod y Cyngor yw ymwreiddio ystyriaethau ansawdd aer yn gliriach ac yn fwy cyson yn y broses o wneud penderfyniadau.

4.4.2 Adeiladu

Mae gwaith adeiladu yn gallu cynhyrchu llwch (deunydd gronynnol), allyriadau o blanhigion a pheiriannau a symudiadau cerbydau ychwanegol. Er mai dim ond effeithiau dros dro yw'r rhain, gallant effeithio ar drigolion cyfagos a derbynyddion sensitif.

Bydd y Cyngor yn parhau i ddefnyddio amodau cynllunio a phwerau Niwsans Statudol i sicrhau bod datblygwyr yn gwneud y canlynol:

- Gweithredu arferion gorau, atal llwch a rheoli safle yn effeithiol;
- Defnyddio offer a pheiriannau sydd wedi'u cynnal a chadw'n briodol, ac yn gollwng llai o allyriadau;
- Rheoli symudiadau cerbydau a llwybro i leihau effeithiau lleol;
- Ymateb yn brydlon i gwynion sŵn a llwch.

Mae'r Cyngor hefyd yn gofyn am Gynlluniau Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMPs) fel amod cynllunio cyn cychwyn ar gyfer datblygiadau perthnasol. Mae CEMPs yn nodi mesurau manwl i reoli llwch, allyriadau, adeiladu, traffig, sŵn ac arferion safle.

5 Monitro a gwerthuso

Mae monitro a gwerthuso rheolaidd yn hanfodol i asesu effeithiolrwydd y camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Ansawdd Aer hon. Mae adolygiad parhaus yn sicrhau bod ymyriadau yn parhau i fod yn gymesur, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymatebol i amodau lleol sy'n newid, gan gynnwys patrymau traffig, twf datblygu, gweithgarwch diwydiannol ac allyriadau domestig.

Bydd y Cyngor yn parhau i wneud gwaith monitro ansawdd aer lleol ar draws y fwrdeistref yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Bydd data monitro yn cael ei ddefnyddio i asesu cydymffurfiaeth ag amcanion ansawdd aer cenedlaethol, nodi manau problemus sy'n dod i'r amlwg ac olrhain tueddiadau hirdymor mewn llygryddion allweddol fel nitrogen deuocsid (NO_2) a deunydd gronynnol mân ($\text{PM}_{2.5}$).

Bydd canfyddiadau ansawdd aer yn cael eu hadrodd yn flynyddol trwy Adroddiadau Cynnydd Ansawdd Aer (APRs) statudol y Cyngor, gan sicrhau tryloywder a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau, rhanddeiliaid a thrigolion am gynnydd ac unrhyw newidiadau mewn crynodiadau llygryddion.

Bydd y Cyngor yn gweithio ar y cyd â phartneriaid rhanbarthol, cydweithwyr lechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cyfagos lle mae ffynonellau trawsffiniol a choridorau trafndiaeth cyffredin yn dylanwadu ar ansawdd aer yn y fwrdeistref. Bydd y dull partneriaeth hwn yn cefnogi camau gweithredu cydgysylltiedig a chasglu tystiolaeth yn gyson.

Pan fo monitro yn dangos nad yw camau gweithredu yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, bydd y Cyngor yn adolygu ac yn addasu mesurau yn unol â hynny. Bydd y dull hyblyg hwn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol a bod y Strategaeth yn parhau i gydfynd ag amcanion hinsawdd, trafndiaeth, cynllunio ac iechyd cyhoeddus ehangach.

Wrth werthuso effeithiau ehangach ymyriadau ansawdd aer, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd ystyried data iechyd y cyhoedd a phenderfynyddion ehangach lles. Bydd gweithio'n agos gyda phartneriaid iechyd y cyhoedd yn helpu i nodi canlyniadau iechyd cadarnhaol sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer gwell, gan gynnwys lleihau risg anadlol a chardiofasgwlaidd.

Trwy ddulliau monitro cadarn, adroddiadau tryloyw a gwerthuso cydweithredol, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn sicrhau bod y Strategaeth Ansawdd Aer hon yn parhau i fod yn ddynamig, yn atebol ac yn ymatebol i anghenion cymunedau ledled y fwrdeistref.



6 Sut allwch chi helpu?

Gallwn ni i gyd gyfrannu at wella ansawdd aer. Mae'r llywodraeth genedlaethol yn gosod safonau a rheoliadau, ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid a busnesau i gyflawni camau gweithredu lleol - ond mae'r penderfyniadau bob dydd sy'n cael eu gwneud gan drigolion, cymudwyr a busnesau yn bwysig hefyd. Gall dewisiadau am sut rydyn ni'n teithio, yn gwresogi ein cartrefi ac yn defnyddio ynni effeithio ar yr aer rydyn ni'n ei anadlu. Mae newidiadau bach, ymarferol, fel cerdded neu feicio ar gyfer teithiau byr, peidio â gadael i injans ein cerbydau segura cymaint neu wella effeithlonrwydd ynni eich cartref, helpu i leihau llygredd, diogelu iechyd a chreu cymunedau glanach, iachach i bawb.

Dyma rai camau ymarferol y gallwch eu cymryd i leihau eich ôl troed llygredd aer ac osgoi dod i gysylltiad â llygredd aer, yn seiliedig ar ganllawiau lleol a chynghor iechyd ehangach.

Gwneud dewisiadau glanach yn yr awyr agored:

- Cyfyngu ar deithiau byr mewn car, yn enwedig y rhai o dan 2-3 cilometr, gan fod y rhain yn cynhyrchu mwy o lygredd aer ac yn defnyddio mwy o danwydd.
- Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, rhannu ceir neu gyfuno teithiau i leihau nifer y teithiau ar wahân.
- Dewis cerdded neu feicio lle bo modd, yn enwedig ar gyfer negeseuon lleol neu i fynd â phlant i'r ysgol.
- Osgoi gadael i injan cerbyd segura'n diangen, wrth aros y tu allan i ysgolion neu siopau.
- Gyrru'n llyfn, gan osgoi brecio llym a rhoi'ch troed ar y sbardun yn galed, sy'n cynyddu allyriadau a'r defnydd o danwydd.
- Cynnal a chadw eich cerbyd, gan gynnwys sicrhau bod yr olwynion ar y pwysedd cywir, er mwyn lleihau'r straen ar yr injan a lleihau llygredd.
- Osgoi llosgi gwastraff neu gynnu tân gwyllt – mae llosgi plastigau, rwber neu ddeunyddiau wedi'u trin yn anghyfreithlon ac yn cynhyrchu llygryddion niweidiol.
- Cefnogi mannau gwyrdd trwy blannu coed neu lwyni addas lle bo hynny'n briodol, sy'n gallu gwella ansawdd amgylcheddol lleol.

Gwella ansawdd aer dan do:

- Gwasanaethu eich boeleri, gwresogyddion a chyfarpar llosgi tanwydd yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel ac yn lân.
- Lleihau dibyniaeth ar losgi tanwydd solet ac ystyried dewisiadau gwresogi glanach lle bo modd.
- Awyru eich cartref wrth goginio, glanhau neu baentio, gan ddefnyddio ffaniau echdynnu neu agor ffenestri os yw'n ddiogel gwneud hynny.
- Bod yn ymwybodol o gynhyrchion sy'n rhyddhau cemegau, fel aerosolau, canhwylau persawrus, chwistrellau glanhau neu dddyddion; dewiswch nwyddau allyriadau isel neu heb bersawr lle bo modd.
- Osgoi ysmegu dan do, gan fod hyn yn gwaethygu ansawdd aer dan do yn sylweddol ac yn effeithio ar eraill yn y cartref.

Bod yn rhan o gamau gweithredu lleol:

- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ansawdd aer lleol trwy wirio diweddariadau'r Cyngor.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu lleol, arolygon ac ymgynghoriadau er mwyn helpu i lywio rhaglenni ansawdd aer yn y dyfodol.
- Cefnogi mentrau ysgol neu gymunedol sy'n hyrwyddo teithio llesol, mannau gwyrdd neu ymgyrchoedd gwrth-segura.



7 Ble i gael rhagor o wybodaeth?

Os ydych chi eisiau dysgu mwy am lefelau ansawdd aer cyfredol yng Nghaerffili, y camau rydyn ni'n eu cymryd neu wybodaeth ddefnyddiol am iechyd a lles, edrychwch ar y rhestr ganlynol o adnoddau defnyddiol.

Offeryn/Adnodd	Disgrifiad	Dolen
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Yn darparu gwybodaeth am fonitro ansawdd aer yng Nghaerffili, a mynediad at adroddiadau ansawdd aer	https://www.caerffili.gov.uk/services/environmental-health-and-pollution/pollution/air-quality?lang=cy-gb
Cynllun Datblygu Lleol Caerffili	Yn darparu cyd-destun ar bolisiau ym Mwrdeistref Sirol Caerffili	https://www.caerffili.gov.uk/business/planning-and-building-control-for-business/local-development-plan/local-development-plan-2010-(adopted)/the-adopted-ldp?lang=cy-gb
Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach	Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella ansawdd aer a lleihau allyriadau llygryddion ledled Cymru.	https://www.llyw.cymru/cynllun-aer-glan-i-gymru
Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU	Yn darparu gwybodaeth am effeithiau llygredd aer ar iechyd	https://ukhsa.blog.gov.uk/2022/06/16/clean-air-day-how-ukhsa-is-tackling-air-pollution-and-how-you-can-help/
Rhagolwg Llygredd Aer Defra	Mae offeryn rhagolwg llygredd aer Defra yn darparu'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer ansawdd aer ledled y DU	https://uk-air.defra.gov.uk/
Ansawdd Aer Cymru	Yn darparu gwybodaeth genedlaethol am ansawdd aer, data monitro, canllawiau ac offer ar gyfer Cymru.	https://www.airquality.gov.wales/cy
Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru	Yn darparu canllawiau iechyd ar sut i osgoi dod i gysylltiad â llygredd aer a deall ei effeithiau ar iechyd yng Nghymru.	https://rhwydwaithiechydcyhoeddus.cymru/Testun/amgylchedd/amgylchedd-naturiol/ansawdd-aer/
Prifddinas-ranbarth Caerdydd, Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	Yn darparu gwybodaeth am y cynllun trafnidiaeth gan gynnwys ardal Caerffili	https://www.cardiffcapitalregion.wales/wp-content/uploads/2026/03/updated-wel-cardiff-capital-region-public-facing-report-60pp_jh_v7_cy-26.03.26.pdf
Strategaeth Datgarboneiddio Caerffili	Yn darparu gwybodaeth am strategaeth ddatgarboneiddio'r sir	https://www.caerffili.gov.uk/CaerphillyDocs/Council-and-democracy/DecarbonisationStrategy/DecarbonStrategy2020_cym.aspx
Mwg ac arogl o fusnesau Caerffili	Yn darparu rhagor o wybodaeth am fwg ac arogl yn y fwrdeistref	https://www.caerffili.gov.uk/services/environmental-health-and-pollution/pollution/smoke-and-odour/smoke-and-odour-from-businesses?lang=cy-gb
Cycling UK	Yn cynnig ystod diduedd o gyngor, canllawiau, adolygiadau, ysbrydoliaeth a llwybrau er mwyn helpu pobl i brofi llawenydd beicio	https://www.cyclinguk.org/
Burn Right	Gwybodaeth am achosion a ffyrdd o leihau llygredd aer o losgi coed	https://burnright.co.uk/how-to-burn-right/
NACE – National Association of Chimney Engineers	Corff proffesiynol ar gyfer peirianwyr simneiau cymwysedig sy'n cynnig arolygiadau, diagnosteg, atgyweiriadau a chanllawiau gweithredu'n ddiogel ar gyfer simneiau a systemau tanwydd solet	https://www.nace.org.uk/

Appendix A: Crynodeb o ganlyniadau ymgysylltu â'r gymuned

Er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn cynrychioli ystod amrywiol o safbwyntiau, cynhaliodd y Cyngor arolwg cymunedol ac ymgynghoriad cyhoeddus i'r fwrdeistref gyfan yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2026 i ddeall sut mae trigolion yn ystyried ansawdd aer, y materion maen nhw'n sylwi arnynt yn eu cymdogaethau a'r hyn ddylai gael blaenoriaeth yn eu barn nhw. Roedd cyfraniadau gan grwpiau lleol, busnesau a chynrychiolwyr cymunedol yn rhoi syniad i ni o realiti bob dydd ansawdd aer yn nhrefi a phentrefi Caerffili. Mae'r cyfuniad hwn o dystiolaeth a llais y gymuned wedi helpu i greu Strategaeth a siapiwyd gan y bobl y mae'n eu gwasanaethu.

Llwyddodd yr ymgynghoriad i roi syniad gwerthfawr o sut mae trigolion ledled Bwrdeistref Sirol Caerffili yn profi ac yn deall ansawdd aer lleol, gyda thros gant o gyfranogwyr yn cwblhau'r arolwg o bob cwr, gan gynnwys Caerffili, Bargod, Llanbradach, Bedwas, Cwmfelinfach, Ystrad Mynach a llawer mwy. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn byw yn y Fwrdeistref, a chyfran sylweddol yn dweud bod ganddyn nhw gyflyrau anadlol neu gyflyrau iechyd hirdymor eraill sy'n golygu y gallan nhw fod yn fwy bregus i ansawdd aer gwael. Mae'r ymatebion hyn wedi helpu'r Cyngor i ddeall ble mae pryderon wedi'u crynhoi fwyaf yn ddaearyddol a pha grwpiau poblogaeth a allai fod angen cymorth ychwanegol neu gyfathrebiadau wedi'u targedu.

Mae adborth o'r arolwg yn tynnu sylw at y ffaith bod gan drigolion farn gymysg am ansawdd aer lleol, gyda rhyw draean yn ei ddisgrifio fel "da iawn" ond cyfran debyg yn ei ddisgrifio fel "gwael" neu "wael iawn." Roedd lefelau pryder yn uwch pan ystyriodd ymatebwyr yr effeithiau posibl ar eu hiechyd a'r amgylchedd lleol - gyda'r naill a'r llall yn ysgogwyr pwysig i'w gwella. Mae'r canfyddiadau hyn yn ategu pwysigrwydd cynnal strategaeth sydd nid yn unig yn mynd i'r afael ag allyriadau ond hefyd yn sensitif i brofiad bywyd cymunedau sy'n sôn am broblemau fel llwch, arogleuon, tagfeydd ac agosrwydd at weithgareddau diwydiannol neu wastraff.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn tynnu sylw at heriau clir yn y ffordd mae pobl yn cael gafael ar wybodaeth am ansawdd aer ar hyn o bryd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent wedi chwilio am wybodaeth o'r blaen ac, o'r rheini oedd wedi cael gwybodaeth, roedd naill ai'n achos i'w chyrru neu ddim yn ddigon clir. Roedd hi'n well gan drigolion gael diweddariadau mwy rheolaidd a thryloyw, yn enwedig trwy wefan y Cyngor, diweddariadau e-bost, sianeli cyfryngau cymdeithasol ac offer hawdd ei ddefnyddio fel apiau tywydd ac ansawdd aer. Pwysleisiwyd yr angen am gyfathrebu cliriach ynghylch ble mae lefelau llygredd ar eu huchaf, beth mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau hyn a sut mae datblygiadau newydd a chynlluniau trafndiaeth yn cael eu hasesu ar gyfer effeithiau ar ansawdd aer.

Wrth lywio camau gweithredu'r Strategaeth, tynnwyd sylw hefyd at y newidiadau yr hoffai'r trigolion eu gweld yn digwydd a'r camau ymarfer maen nhw'n fodlon eu cymryd eu hunain. Dywedodd llawer o ymatebwyr y byddent yn cerdded mwy, yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus, yn osgoi gadael i'w cerbydau segura neu'n gwneud llai o ddefnydd o gerbydau lle bo'n bosibl, ond mae rhwystrau hefyd o ran cyflawni newid ymddygiad o'r fath. Roedd y rhain yn cynnwys opsiynau cyfyngedig o ran trafndiaeth gyhoeddus, cost newid i gerbydau glanach, diffyg llwybrau cerdded a beicio diogel a chyfyngiadau symudedd neu hygyrchedd ehangach. Roedd canfyddiadau o'r fath yn pwysleisio'r angen i'r Strategaeth ganolbwyntio nid yn unig ar annog newid ymddygiad ond hefyd ar wella'r amodau sy'n ei galluogi, gan gynnwys gwell seilwaith trafndiaeth a hygyrchedd.

Ar y cyfan, roedd yr ymgynghoriad yn ganolog wrth lywio blaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth Ansawdd Aer. Helpodd i nodi'r materion sy'n peri pryder mwyaf i drigolion, megis cerbydau nwyddau trwm sy'n teithio trwy ardaloedd preswyl, tagfeydd traffig, allyriadau diwydiannol a llwch o safleoedd datblygu, yn ogystal â'r newidiadau mae trigolion yn dymuno eu gweld fwyaf, gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus gwell, rheolaeth gryfach ar allyriadau o adeiladu a diwydiant, a seilwaith gwyrdd gwell.



**Am unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r
tîm Iechyd yr Amgylchedd yng Nghyngor
Bwrdeistref Sirol Caerffili.**

Ffôn: 01443 811348

E-bost: daviscj@caerphilly.gov.uk

www.caerffili.gov.uk